***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Paragraff 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## ATODLEN 1

## OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU: PENODI ETC

*Anghymhwyso*

6 (1) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro os yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(a) ei fod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin;

(b) ei fod yn awdurdod rhestredig;

(c) ei fod yn aelod, yn aelod cyfetholedig, yn swyddog neu'n aelod o staff awdurdod rhestredig;

(d) ei fod wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad (heblaw yn rhinwedd **[**[F1]dal swydd yr Ombwdsmon neu Ombwdsmon dros dro**]**);

(e) ei fod wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru (heblaw yn rhinwedd paragraff 7 o'r Atodlen hon);

(f) ei fod yn ddarparwr cartref gofal, yn ddarparwr gofal cartref neu'n ddarparwr gofal lliniarol annibynnol;

(g) ei fod yn swyddog neu'n aelod o staff darparwr o'r math hwnnw.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(g) mae person yn swyddog i ddarparwr os oes gan y person reolaeth dros ddarparwr nad yw'n unigolyn neu faterion darparwr o'r fath, neu os yw'r person yn rheoli darparwr nad yw'n unigolyn neu faterion darparwr o'r fath.

(3) Nid yw penodiad person yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro yn ddilys os yw'r person wedi ei anghymhwyso o dan is-baragraff (1).

(4) Os yw person a benodwyd yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro yn dod yn anghymwys o dan is-baragraff (1), mae'r person yn peidio â dal y swydd ar ôl ei anghymhwyso yn y cyfryw fodd.

(5) Ond nid effeithir ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan berson a benodwyd yn Ombwdsmon neu'n Ombwdsmon dros dro gan y ffaith fod y person hwnnw'n anghymwys o dan is-baragraff (1) neu'r ffaith ei fod yn dod yn anghymwys felly.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 1 para. 6(1)(d) wedi eu hamnewid (yn effeithiol yn unol ag a. 42(1)(c) o'r Ddeddf diwygio) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **a. 35(4)(a)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 77(1)**

**I2** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 23.7.2019 gan O.S. 2019/1096, **rhl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, Paragraff 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 03 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 2 para. 6
- Act modified by 2023 asc 3 Sch. 12 para. 7(2)

Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(a) (Welsh language text)
- s. 65(7)(f) inserted by 2022 c. 30 Sch. 10 para. 6(2)(b) (English language text)